

CYNLLUN HYFFORDDIANT 2022 / 2023
Mabwysiadwyd 21ain Medi 2022

Cyflwynwyd y Cynllun Hyfforddiant hwn i Gyngor Cymuned Fali yn ei gyfarfod ym mis Medi 2022 ar gyfer ei ystyried, ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor 'Cymuned Fali wedi ymroi i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ei aelodau a'i staff. Bydd hynny yn eu galluogi nid yn unig i gyflawni yn well eu swyddogaethau priodol er budd y Cyngor a'r gymuned a wasanaethir ganddo, ond hefyd tuag at ddatblygiad personol y cynghorwyr.

2. HYFFORDDIANT

Diffinnir hyfforddiant fel "proses wedi ei chynllunio i ddatblygu gallu yr unigolyn ac i fodloni anghenion cyfredol y Sefydliad ac i'r dyfodol".

Gellir categorio dysgu fel â ganlyn:-

- Cysylltiedig – dysgu trwy fyfyrion ar ddigwyddiadau neu weithgareddau penodol
- Greddf – lle mae'r dysgu'n ddamweiniol heb i'r unigolyn fod yn ymwybodol ohono.
- Rhagweithiol – y bwriad i ddysgu o weithgaredd, myfyrion drosto gan gynllunio i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd.
- Ôl-weithredol – ymagwedd systemol trwy ôl-fyfyrion ar weithgareddau gan adnabod gwersi i'w dysgu.

Rhagdybir y bydd y dysgu a wneir gan aelodau/staff yn cwmpasu'r uchod.

3. AMCANION HYFFORDDIANT

Mae amcanion y Cyngor fel â ganlyn:-

- I wella dealltwriaeth ei aelodau o'u swyddogaeth fel Cynghorydd Cymuned, y pwerau sydd ar gael i Gyngor Cymuned a sut orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor a fydd yn rhoi'r deilliannau gorau i'r trigolion y mae'n eu gwasanaethu
- Darparu hyfforddiant hanfodol ac o safon uchel i'w staff i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith yn effeithiol a hyderus.
- Sicrhau lefel derbyniol o gynllunio ar gyfer olyniaeth fel bod:
 - a) Y Cyngor yn gallu gweithredu'n effeithiol yn dilyn etholiadau lleol ac unrhyw newidiadau posibl i aelodaeth y Cyngor.
 - b) Modd sicrhau bod y Cyngor yn gallu dal ati i weithredu pan na fydd y clerc ar gael (e.e gwyliau, salwch neu staff yn gadael).

CYNLLUN HYFFORDDIANT STAFF

Bydd unrhyw glerc newydd yn dilyn Hyfforddiant Cynefino/dilyn cynllun cynefino	Ar ôl penodi
Gwerthuso'r clerc a thrwy hynny adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant	Blynyddol
Rhoi anogaeth i'r clerc i gyflawni unrhyw un o'r hyfforddiant canlynol, yn ddibynnol bod cyllid ar gael:- a) ILCA – Cyflwyniad i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol b) FILCA – Cyflwyniad Ariannol ar Weinyddiaeth Cynghorau Lleol c) CILCA – Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol	Parhaus
Rhoi anogaeth i'r clerc i ddarllen cyhoeddiadau rheolaidd a diweddariadau o wefannau:- <ul style="list-style-type: none"> • Y Gymdeithas ar gyfer Clercod Cynghorau Lleol(SLCC) • Un Llais Cymru 	Misol
Rhoi anogaeth i'r clerc i fynychu hyfforddiant perthnasol i'r swydd yn enwedig pan fydd unrhyw newid mewn deddfwriaeth.	Parhaus

CYNGOR

Y Cyngor i osod cyllideb blynyddol ar gyfer hyfforddiant a fydd yn ddigonol ar gyfer gweithgareddau hyfforddiant, mynychu cynadleddau a chyhoeddiadau hyfforddiant ar gyfer aelodau a staff.	Blynyddol yn ystod y broses o osod cyllideb
--	---

HYFFORDDIANT CYNGHORWYR

Pob Cynghorydd i gael Pecyn Ymgynefino Aelodau Newydd yn dilyn Etholiadau Cynghorau Lleol a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl dyddiad derbyn arwyddo y Ffurflen Datgan Derbyn Swydd neu hyn yn oed yn gynt os yn bosibl.	Pob 4 blynedd
Anogir pob Cynghorydd i adnabod eu anghenion hyfforddiant eu hunain yn enwedig os ydynt yn aelodau o bwyllgorau e.e pwyllgor cyllid, pwyllgor mynwentydd, pwyllgor parciau. Bydd rhestr o gyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru yn cael eu cylchredeg yn fisol i gynorthwyo'r broses.	Bob Mehefin yn flynyddol gyda cheisiadau am hyfforddiant yn cael eu cyflwyno i'r clerc.
Anogir pob Cynghorydd i fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad o fewn 6 mis ar ôl iddynt arwyddo derbyn y swydd.	Ar ôl eu hethol/cyf-ethol

Anogir Cynghorwyr i fynychu cynadleddau a digwyddiadau hyfforddiant fel sy'n briodol i gyfarfod eu anghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain a rhai'r Cyngor.	Yn flynyddol bob mis Mehefin
Anogir Cynghorwyr i ddarllen y cyhoeddiadau canlynol, a fydd yn cael eu dosbarthu iddynt gan y clerch. <ul style="list-style-type: none"> • Y Canllaw ar gyfer Cynghorwyr Da • Llywodraethiant ac Atebolrwydd – Canllaw ar gyfer ymarferwyr 	Ar ôl eu hethol neu gyfethol i'r swydd neu ar ôl i'r dogfennau gael eu diweddarau.
Anogir Cynghorwyr i ddefnyddio gwefan Un Llais Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw fater a allai fod yn bwysig iddynt.	Parhaus
Anogir Cynghorwyr yn gryf i fynychu unrhyw weminar/sesiynau a ddarperir gan y Cyngor Sir lleol/Llywodraeth Cymru ac unrhyw sefydliad arall sy'n hyrwyddo hyfforddiant ac arfer da h.y seminarau cynllunio.	Parhaus
Anogir Cynghorwyr yn gryf i edrych ar y cyrsiau hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru pan ddosberthir y manylion bob mis.	Parhaus